

Gwybodaeth Ategol ar gyfer Arweinwyr

Sgowtiaid / Geidiau



Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales

Gwybodaeth Groeso am y Bathodyn Her Hawliau

Datblygwyd y bathodyn yma i roi gwybodaeth i blant a phobl ifanc am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (a elwir weithiau yn CCUHP), a rôl Comisiynydd Plant Cymru.

Cynlluniwyd y bathodyn er mwyn i bobl ifanc allu arwain eu dysgu eu hunain, gyda'ch cymorth chi. Mae'r canllaw yma'n darparu'r wybodaeth ychwanegol y bydd ei hangen arnoch chi i gefnogi plant a phobl ifanc yn ystod yr her.

Ein gobaith ni yw y bydd y bathodyn yn helpu pobl ifanc i gael hwyl, i gael eu herio ac, yn bwysicach, i ddysgu am hawliau plant a gwaith y Comisiynydd Plant.

I gyd-fynd â gofynion y bathodyn, mae gweithgareddau y gall y Sgowtiaid/Geidiau gymryd rhan ynddyn nhw er mwyn cyflawni'r Bathodyn Her.

Mae'r gweithgareddau'n darparu rhaglen barod i'r bobl ifanc, gyda rhestr o'r adnoddau y bydd eu hangen a chanllaw cam wrth gam ar sut mae cyflawni'r gweithgaredd. Gallant gyflawni'r gweithgareddau yn annibynnol; fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd eich grŵp am daclo'r Bathodyn Her Hawliau gyda'i gilydd.

Gall arweinwyr ddewis yr adnoddau gorau i helpu'r plant unigol yn eu grŵp. Bydd rhai plant yn ffafrio defnyddio ein hadnoddau symbolau hawliau plant a bydd rhai yn ffafrio defnyddio'r poster hawliau plant.

Rydyn ni wedi ceisio sicrhau bod y Bathodyn Her mor hawdd ei ddefnyddio â phosib. Bydden ni'n falch o gael sylwadau gennych ar y bathodyn ac unrhyw newidiadau neu awgrymiadau o ran gweithgareddau.

Os bydd eich grŵp wedi cwblhau'r Bathodyn Her Hawliau, cofiwch rannu eu cyflawniadau â ni. I rannu eich gwaith, anfonwch neges e-bost aton ni i'r cyfeiriad post@complantcymru.org.uk.

Fel arall, gallwch chi ymuno yn ein #AwrHawliau ar Twitter. Anfonwch neges drydar i @complantcymru gan gynnwys #AwrHawliau yn y trydariad. Cynhelir yr #AwrHawliau bob dydd Gwener rhwng 12.00 canol dydd ac 1.00pm ac mae'n ffordd wych o rannu'r gwaith mae eich grŵp wedi'i gyflawni â phawb yng Nghymru.



Gofynion y Bathodyn

Ar ddiwedd y bathodyn Her Hawliau, bydd plant a phobl ifanc:

Yn gwybod ac yn gallu enwi o leiaf 3 o'r hawliau sydd gan blant a byddant wedi dweud wrth rywun y tu allan i'r Sgowtiaid/Geidiau am yr hawliau hynny

Yn gwybod beth yw enw Comisiynydd Plant Cymru

Yn gwybod beth yw gwaith Comisiynydd Plant Cymru

Yn gwybod ble mae cael gwybodaeth am hawliau plant

Bydd gweithgaredd 5 yn eu pecyn gwaith yn helpu plant a phobl ifanc i wirio eu bod nhw wedi cwblhau'r holl ofynion.

Comisiynydd Plant Cymru a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru ar hyn o bryd, a bu'n gwneud y swydd hon ers mis Ebrill 2015. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Sally Holland a'i rôl ar ein gwefan www.complantcymru.org.uk

Mae'n bosibl y byddwch am ddangos y [fideo](#) yma i'ch pac.

Fel Comisiynydd, mae gan Sally bum pŵer, sef:

- **Gwranddo** ar blant a phobl ifanc a chael gwybod beth sy'n bwysig iddyn nhw
- **Helpu** plant a phobl ifanc i gael gwybodaeth am hawliau plant
- **Cynghori** a helpu plant a phobl ifanc neu'r bobl sy'n gofalu amdany'n nhw os byddan nhw'n teimlo bod plentyn wedi cael ei drin yn annheg
- **Dylanwadu** ar y llywodraeth a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau bod plant yn derbyn eu hawliau
- **Codi llais** dros blant a phobl ifanc ar lefel genedlaethol ar faterion pwysig - bod yn bencampwr plant Cymru.

Ystyr **CCUHP** yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'n rhestr o'r hawliau sydd gan bob plentyn a pherson ifanc ym mhob rhan o'r byd, pwy bynnag ydyn nhw, ble bynnag maen nhw'n byw a beth bynnag maen nhw'n credu ynddo.

Mae gan CCUHP 54 erthygl ac mae 42 o'r hawliau ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 18 oed. Mae'r gweddill yn sôn am sut dylai llywodraethau ac oedolion gydweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad i'w hawliau.

Hawliau plant yw'r holl bethau sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc i sicrhau eu bod yn ddiogel, bod ganddyn nhw'r pethau sydd eu hangen arnynt i oroesi a datblygu, a bod llais ganddyn nhw yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Os byddwch chi am ddarllen mwy am CCUHP, edrychwch ar ein gwefan i gael rhagor o adnoddau.

Gweithgareddau

Yn ystod y Bathodyn Her Hawliau bydd plant yn cwblhau pedwar gweithgaredd gwahanol a ffurflen werthuso.

Mae'n bosibl y bydd eich grŵp yn deall rhywfaint am eu hawliau yn barod o'r ysgol; mae llawer o ysgolion yn helpu plant i ddysgu am hawliau felly mae'n bosibl y bydd rhai pobl ifanc yn ymwybodol o CCUHP.

Gweithgaredd 1: Corff o Hawliau

Bydd y gweithgaredd hwn yn gofyn i bobl ifanc feddwl am y pethau sydd eu hangen arny'n nhw i dyfu i fyny yn hapus, yn iach ac yn ddiogel. Yna, byddan nhw'n defnyddio poster hawliau neu becyn symbolau i weld a yw unrhyw rai o'u hatebion yn cysylltu â hawliau plant.

Os bydd angen cymorth ar bobl ifanc i wneud y gweithgaredd hwn, gallech ddangos y poster hawliau a'r pecyn symbolau iddyn nhw.

Gweithgaredd 2: Hawliau yn dy gymuned

Gallai'r Criw cyfan/Uned gyfan wneud y gweithgaredd hwn. Bydd pobl ifanc yn llunio map o'u cymuned ac yn nodi mannau sy'n cefnogi eu hawliau. Byddan nhw'n edrych hefyd ar fannau yn eu cymuned leol nad ydyn nhw'n cefnogi eu hawliau. Gallai'r gweithgaredd hwn arwain at waith arall; hwyrach y bydd pobl ifanc am gysylltu â'u cynghorydd lleol i drafod materion yn eu cymuned leol. Mae gennym ni ganllaw defnyddiol yma.

Gweithgaredd 3: Sally a'i Phwerau

Gweithgaredd celf yw hwn; bydd pobl ifanc yn dysgu am Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, a'i rôl. Yna, byddan nhw'n mynd ymlaen i greu eu posteri gwybodaeth eu hunain, gan gynnwys sut gall plant a phobl ifanc gysylltu â gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor Sally Holland.

Os bydd angen cymorth ar bobl ifanc i wneud y gweithgaredd hwn, mae'n bosibl y byddwch am ddangos y fideo rhagarweiniol unwaith eto.

Gweithgaredd 4: Creu dy weithgaredd dy hun

Mae'r gweithgaredd hwn yn ffordd hwyliog i bobl ifanc ddefnyddio eu dealltwriaeth a dyfeisio gweithgaredd newydd. Byddai'n braf rhoi cyfle i'r bobl ifanc rannu eu gweithgaredd newydd gyda gweddill eu grŵp.

Gweithgaredd 5: Fy Mathodyn Hawliau

Ffurflen werthuso yw hon y gall pobl ifanc ysgrifennu arni neu dynnu llun arni i ddangos faint maen nhw wedi'i ddysgu.

Unwaith y byddan nhw wedi cyflwyno eu ffurflen wedi'i llenwi gallan nhw gael eu Bathodyn Her Hawliau.

Bydden ni'n ddiolchgar petaech chi'n gallu anfon copiâu o "Fy Mathodyn Her Hawliau" atom, trwy'r e-bost: post@complantcymru.org.uk neu trwy'r post i:

Comisiynydd Plant Cymru

Tŷ Ystumllwynarth

Llys Siarter

Ffordd Ffenics

Abertawe

SA7 9FS